

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Nia Heledd Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3/4/2018

**Presennol:** Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**1855 Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

**1856 Croesawyd** pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Beryl Hughes Griffiths, Huw P Roberts a Huw Antur

**1857 Buddiant:** Ni dderbyniwyd datganiadau o fuddiant.

**1858 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/3/2018.

**1859 Materion y Clerc :**

- i. 1844 Arddangoswyd y Rhybudd Sedd Wag ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y Cyngor.
- ii. 1821.i Derbyniwyd eglurhad am gyfrifoldeb dros faes parcio'r Felin; ar hyn o bryd wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri fydd yn gofalu am yr ardal hyd nes cwblheir y gwaith cyfreithiol o'i drosglwyddo i feddiant Cyngor Gwynedd.
- iii. 1821.iii Derbyniwyd ymateb Cyngor Gwynedd am gysylltu Llwybr Tegid gyda Llwybr y Ceir; cytunwyd nad oes dim arall gall y Cyngor Cymuned ei wneud.
- iv. 1848 Cyhoeddwyd elw'r Noson Goffi: £267 yr un i Ambiwlans Awyr Cymru ac i Tenovus.

**1860 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans, a soniodd am doriadau ariannol sy'n gorfodi newidiadau i gytundebau gwaith staff y Cyngor. Dywedodd ei fod wedi bod yn ceisio datrys y broblem parcio ar gyfer gweithwyr ffatri Cake Crew yn Y Bala gyda Chynghorydd Sir Y Bala. Ychwanegodd fod angen gwaith ar yr is-orsaf drydan yno ac y byddai'n cysylltu gyda'r Aelod Seneddol am hyn. Dywedodd hefyd fod gwaith wedi ei wneud ar wyneb ffordd Cilgellan a Chefn Gwyn. Adroddwyd fod gwaith wedi dechrau ar ffosydd ffordd Penantlliw Bach.

**1861 Is Bwyllgor y Fynwent:** Derbyniwyd adroddiad yr is-bwyllgor. Ar ôl edrych ar nifer o brisiau a dyluniadau, cytunwyd i archebu Hysbysfwrdd arall i'r Fynwent oddi wrth gwmi Greenbarnes, gan gadw at ddyluniad yr hysbysfwrdd sydd yno ar hyn o bryd.

**1862 Is bwyllgor Cyllid:** Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd, Alwyn E Jones a ganmolodd y Swyddog Ariannol am gadw'r sefyllfa yn agos iawn at y Gyllideb a osodwyd am y flwyddyn 2017-18.

**1863 Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** Dosbarthwyd Cofnodion y cyfarfod diwethaf trwy e-bost.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Nia Heledd Jones

---

**1864 Materion Eiddo'r Cyngor:** Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones fod yr asedau mewn cyflwr derbyniol. Cafwyd trafodaeth cyffredinol ar uwchraddio'r toiledau a chytunwyd fod angen sicrhau grant neu nawdd cyn cychwyn ar unrhyw waith. Roedd cytundeb i gael un toiled pwrpasol ar gyfer dynion, merched a'r anabl, ac i gael drws a fyddai'n agor wrth dalu. Cytunodd Karl Jones i wneud ymholiadau pellach. Cytunodd Karl Jones, Alwyn Roberts, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones a Dewi Jones weithredu ar Bwyllgor Cyfleusterau.

**1865 Prosiect Paneli Dehongli:** Derbyniwyd adroddiad Huw Antur ar y prisiau a dderbyniodd ar greu'r Paneli. Trafodwyd cynnwys apps er mwyn cynnwys mwy o fanylion a rhoi dewis o ieithoedd. Cytunodd yr is-bwyllgor i edrych ymhellach ar hyn cyn dewis y darparwr.

**1866 Materion lleol:** Cytunwyd i roi mater cyflwr yr Eglwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Roedd pryder am y cynnydd ym maw ci ar hyd y pentref yn ddiweddar. Anogwyd trigolion i roi gwybod i'r Cynghorwyr os oes ganddynt wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i'r warden baw cwn. Byddai llun o'r ci yn hynod ddefnyddiol.

Adroddodd Arwel Lloyd Jones fod fflat ym Maesypanyd ar gael i'w rhentu.

Adroddwyd fod dau cynhwysydd wedi eu gosod yng ngardd Y Glofer. Fe wnaeth Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a nifer o bobl leol wrthynebu'r cais i godi sied yno. Gwrthododd Parc Cenedlaethol Eryri roi caniatâd i godi sied. Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i fynegi siom fod hyn wedi digwydd.

**1867 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniodd y Cyngor gais am gyfraniad gan Y Cyfnod am gyhoeddi Cofnodion. Cytunodd cynrychiolwyr Partneriaeth Penllyn i roi ystyriaeth i gyd-gordio ymateb rhwng y Cyngorau Cymuned a Thref ym Mhenllyn.

**1868 Gohebiaeth:**

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd gwybodaeth am Gynllun Datblygu Eryri wedi ei adolygu
- 2. Eraill:** Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniad ariannol

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/5/18 yn y Neuadd Bentref am 7.30  
Bydd criw yn ymgynnull i glirio'r fynwent, Nos Lun 9/4/18 am 7.00pm*

*Amser gorffen y cyfarfod: 9.00pm*